SKAPW75

Datblygu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau yn ymwneud â hawliau plant a phobl ifanc

## Trosolwg

Mae a wnelo'r safon hon â chydymffurfio â gofynion cyfreithiol a chyda pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad sy'n ymwneud â hawliau plant a phobl ifanc. Mae'n rhoi sylw hefyd i weithredu'r polisïau hyn ac i'r cyfrifoldeb o'u cynnal – yn eich lleoliad gwaith chwarae a chyda'r staff rydych chi'n gyfrifol amdanyn nhw.

**Prif ddeilliannau'r safon hon ydy:**

1. datblygu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau eich sefydliad i sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion plant a phobl ifanc ac yn amddiffyn eu hawliau.
2. sicrhau fod y staff rydych chi'n gyfrifol amdanyn nhw yn gwybod am bolisïau a gweithdrefnau eich sefydliad ac yn eu gweithredu

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr chwarae sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliad gwaith chwarae ac sy'n gyfrifol yn bennaf am roi cyfleoedd i blant chwarae fel maen nhw'n dewis ac yn dymuno ei wneud. Mae'r safon ar gyfer staff sydd â pheth cyfrifoldeb dros y lleoliad gwaith chwarae ac eraill, ac sy'n gwneud cyfraniad allweddol i gefnogi chwarae.

**Mae'r safon hon yn ategu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Mae angen i weithwyr chwarae fod yn gyfarwydd â'r rhain, a lle bo'n bosib, eu defnyddio wrth eu gwaith ac wrth adlewyrchu.**

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Datblygu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau eich sefydliad i sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion plant a phobl ifanc ac yn amddiffyn eu hawliau**

1. ymchwilio i **hawliau** plant a phobl ifanc ac ymgynghori yn eu cylch
2. gwerthuso **polisïau a gweithdrefnau** presennol i sicrhau eich bod yn cwrdd â **hawliau** plant a phobl ifanc yn eich lleoliad gwaith chwarae
3. trafod gyda phlant a phobl ifanc y ffyrdd y gall y lleoliad gwaith chwarae gwrdd â'u **hawliau** orau
4. datblygu cytundeb grŵp gyda'r plant a'r bobl ifanc ynghylch sut i gwrdd â'u hawliau a'u hanghenion
5. trafod a chytuno ar **bolisïau a gweithdrefnau** gyda'ch staff sy'n seiliedig ar gwrdd â **hawliau** ac anghenion plant a phobl ifanc
6. darparu gwybodaeth a chanllawiau i'ch staff ynghylch y **polisïau a'r gweithdrefnau** hyn
7. cytuno ar ffyrdd gyda'ch staff o wella'r **polisïau a'r gweithdrefnau**

**Sicrhau fod y staff rydych chi'n gyfrifol amdanyn nhw yn gwybod am bolisïau a gweithdrefnau eich sefydliad ac yn eu gweithredu**

1. datblygu rhaglen hyfforddi i bob aelod o staff
2. gwirio fod eich staff yn ymwybodol o'r **polisïau a'r gweithdrefnau**
3. sicrhau fod eich llawlyfr staff a'ch cyrsiau sefydlu ac anwytho yn cynnwys elfen am y **polisïau a'r gweithdrefnau**
4. hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant i'r staff, a lle bo angen, eu cefnogi
5. arsylwi, casglu adborth a gwerthuso pa mor dda mae'r **polisïau a'r gweithdrefnau** yn gweithio
6. dewis un polisi a gweithdrefn i'w hyrwyddo yn eu tro gyda'ch staff

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Datblygu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau eich sefydliad i sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion ac yn amddiffyn hawliau plant a phobl ifanc**

1. yr Egwyddorion Gwaith Chwarae sy'n rhan o fframwaith proffesiynol a moesegol gwaith chwarae a sut mae modd cymhwyso pob un o'r egwyddorion i'ch gwaith chi
2. gofynion sylfaenol y ddeddfwriaeth genedlaethol a rhanbarthol sy'n gwarchod hawl plant a phobl ifanc i chwarae
3. gofynion sylfaenol deddfwriaeth genedlaethol ynglŷn â **hawliau** plant a phobl ifanc
4. gofynion sylfaenol y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Gyfleoedd Cyfartal a Gwahaniaethu ar Sail Anabledd
5. canllawiau, polisïau a gweithdrefnau lleol a sut maen nhw'n berthnasol i'r lleoliad gwaith chwarae
6. cyfrifoldebau amddiffyn plant
7. camau sylfaenol datblygiad plentyn a goblygiadau hyn ar **hawliau** ac anghenion plant yng nghyd-destun gwaith chwarae
8. pwysigrwydd fod polisïau a gweithdrefnau gan y lleoliad gwaith chwarae sy'n adlewyrchu **hawliau** plant a phobl ifanc
9. pwysigrwydd trafod gyda phlant a phobl ifanc, eu cynnwys yn y broses benderfynu, a sut i drafod yn effeithiol gyda nhw
10. pwysigrwydd amrywiaeth a chynhwysiant yn y lleoliad gwaith chwarae
11. y damcaniaethau a'r arferion gorau diweddaraf o ran cynhwysiant
12. sut i ymchwilio i **hawliau** plant a phobl ifanc ac adnabod sut y bydd y rhain yn effeithio ar eich lleoliad gwaith chwarae
13. strategaethau a pholisïau eich sefydliad fydd yn effeithio ar **hawliau** plant a sut i werthuso'r rhain
14. sut i hyrwyddo ac eiriol dros **hawliau** plant a phobl ifanc yn y lleoliad gwaith chwarae

**Sicrhau fod y staff rydych chi'n gyfrifol amdanyn nhw yn gwybod am bolisïau a gweithdrefnau eich sefydliad ac yn eu gweithredu**

1. sut i roi **polisïau a gweithdrefnau** eich sefydliad ar waith yn eich lleoliad gwaith chwarae
2. sut i ddatblygu cynllun hyfforddi ar gyfer staff
3. ffyrdd o wirio fod staff yn ymwybodol o'r **polisïau a'r gweithdrefnau** a pham ei bod hi'n bwysig cwblhau hyn yn gyson.
4. sut i sicrhau fod staff yn cwrdd â **hawliau** plant a phobl ifanc yn eich lleoliad gwaith chwarae
5. sut i ymgorffori **polisïau a gweithdrefnau** i fod yn rhan o gyrsiau anwytho, cynlluniau ymgyfarwyddo a / neu lawlyfrau staff
6. materion ynglŷn ag amrywiaeth a chynhwysiant a phryd a sut i gefnogi staff
7. sut i gasglu adborth a gwerthuso sut mae **polisïau a gweithdrefnau'n** gweithio
8. ffyrdd o hyrwyddo polisi a gweithdrefn benodol yn rheolaidd

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**Hawliau***(o leiaf 4 allan o 6)*

1. mewn perthynas â chwarae a gweithgareddau cymdeithasol
2. mewn perthynas â gofal a diogelwch
3. mewn perthynas â lles emosiynol
4. mewn perthynas â chynhwysiant
5. mewn perthynas â chydnabod hunaniaeth
6. mewn perthynas â gwybodaeth

**Polisïau a gweithdrefnau** *(o leiaf 4 allan o 7)*

1. chwarae a gweithgareddau cymdeithasol
2. gweithio mewn ffordd gynhwysol sydd ddim yn gwahaniaethu
3. amddiffyn plant a bwlio
4. iechyd a diogelwch
5. ymateb i ymddygiad
6. helpu plant a phobl ifanc i bontio sefyllfaoedd
7. gweithio gydag asiantaethau eraill

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth